Ymhellach i'm neges ebost ar 30 Medi 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a gyflwynwyd gennych ar 29 Medi 2015, sef

**"Pryd oedd y tro diwethaf i archwiliad gael ei gynnal yng nghyswllt proses Cyngor Sir Powys o adennill y dreth gyngor, i sicrhau bod y broses a ddefnyddir yn cydymffurfio â phob agwedd ar bob deddfwriaeth berthnasol."**

Nid ydym yn cadw gwybodaeth wedi'i chofnodi sy'n ateb eich cwestiwn. Mae hynny am nad yw'r gwaith a ddisgrifir yn eich cwestiwn yn rhan o'n gwaith arferol. Mae'r gwaith o archwilio cyfrifon yn ymwneud yn bennaf â rhoi prawf digonol ar ddulliau rheoli a thrafodion, er mwyn gallu bod yn sicr bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg i ni. Nid oes angen gwirio bod yr holl brosesau'n cydymffurfio â phob agwedd ar bob deddfwriaeth berthnasol. Yn ogystal, nid oes angen cynnal profion cynhwysfawr o'r fath ar gyfer gwaith archwilio ac asesu arall, megis ystyried trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, neu asesu trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff swyddogaethau eu cyflawni. At hynny, hyd yn hyn nid yw adennill y dreth gyngor wedi bod yn fater a ystyriwyd dan swyddogaethau astudio'r Archwilydd Cyffredinol (e.e. astudiaethau ar gyfer gwella darbodaeth ac ati).

Yn dibynnu ar ba mor berthnasol ydynt i'w swyddogaethau statudol a'u harwyddocâd, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried pryderon a gaiff eu codi am y defnydd o adnoddau cyhoeddus neu'r modd y caiff cyrff y mae'n eu harchwilio eu rhedeg. Mae rhagor o wybodaeth yn y canllaw i ohebwyr
http://www.archwilio.cymru/sites/default/files/download_documents/correspondents_leaflet_final_welsh.pdf

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau ynghylch y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Ian Phillips